LEG-6-2000 (min)

# Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION

**Dyddiad:** 7 Mawrth 2000

**Amser:** 10.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol

{

**Yn bresennol:**
<0}

| | |
|---|---|
| Michael German, Cadeirydd | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Nick Bourne | (Ceidwadol) |
| Jocelyn Davies | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| John Marek | (Llafur) |
| Lynne Neagle | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Cynghorydd Cyfreithiol |

| | |
|---|---|
| Dylan Hughes | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Gareth Brydon | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau:**

Carwyn Jones

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol**

**LEG-5-2000 (min)**

1. Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2000. Nodwyd na fu cyfarfod ar 29 Chwefror.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

1. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno pryderon y Pwyllgor y dylid ei hysbysu am benderfyniadau Ysgrifenyddion y Cynulliad o dan Ran 5 o Reol Sefydlog 22 pan farnant fod deunydd yn ddeddfwriaeth ond na fyddant yn ei gyfeirio at y Pwyllgor.

1. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi cael copïau o gynigion drafft ar newidiadau i Reol Sefydlog 22 oddi wrth Dylan Hughes. Rhoes wybod nad y rhain oedd y cynigion diweddaraf ac nad oedd dim byd wedi mynd i'r Pwyllgor Busnes eto. Gofynnodd am i'r Pwyllgor gael gwybod am y datblygiadau a'i fod yn cael gweld y cynigion terfynol unwaith iddynt fod ar gael.

**Gweithredu: Dylan Hughes**

1. Adroddodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi cynnal trafodaethau gyda Phwyllgor Deddfau Senedd yr Alban. Yr oedd Aelodau'r Pwyllgor hwnnw wedi mynegi diddordeb mewn dod i Gaerdydd a chyfarfod â'u cymheiriaid yng Nghymru. Yr oeddent yn ystyried rhyw ddydd Mawrth yn hwyr ym mis Mawrth, o bosibl y 21 neu'r 28, pan fyddent yn cael gweld y Pwyllgor Deddfau ar

waith a chyfarfod â’r Aelodau’n nes ymlaen. Mae’n bosibl y byddent yn dymuno mynd i weld Cyfarfod Llawn hefyd. Gofynnodd i’r Clerc roi gwybod i’r Pwyllgor am y datblygiadau.

**Gweithredu: Y Clerc**

1. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cael llythyr oddi wrth David Lambert gan roi gwybod bod Ysgol y Gyfraith, Caerdydd wedi sefydlu gwefan Crynhoad Cyfraith Cymru. Mae’r wefan yn cyflwyno swyddogaethau’r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth, ac mae’n gam pwysig wrth sicrhau bod deddfwriaeth y Cynulliad ar gael i bawb. Nododd Mr Hughes ei fod wedi darllen erthygl mewn papur newydd a ddywedodd fod Aelodau a swyddogion y Cynulliad yn cael cyrchu’r wefan yn rhad ac am ddim. Gofynnodd y Cadeirydd am ymchwil i’r mater ac i’r Clerc roi cyfeiriad rhyngrwyd y wefan i’r Aelodau. Atgoffodd yr Aelodau fod Mr Lambert wedi cael ei benodi’n Gynghorydd Cyfreithiol i’r Llywydd a’r Dirprwy Lywydd a dymunodd yn dda iddo yn y penodiad hwnnw.

**Gweithredu: Dylan Hughes**

1. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cael llythyr calonogol oddi wrth Butterworths a ddywedodd nad oeddent yn bwriadu gostwng gwerth deddfwriaeth Cymru i’w ymarferwyr

a’u bod yn edrych yn ofalus ar y mater. Ychwanegodd Mr Hughes fod Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol yn cael cyrchu gwefan Butterworths sy’n cynnwys y ddeddfwriaeth ddiweddaraf a wnaed gan y Cynulliad.

Gwaetha’r modd mae hwn yn wasanaeth tanysgrifio nad yw ar gael yn rhad ac am ddim i’r cyhoedd.

Ond bu datblygiadau ar gyhoeddi ar wefan y Cynulliad ei hun. Adroddodd Mr Hughes fod Rheolwr Rhyngrwyd y Cynulliad wedi cyfarfod y diwrnod cynt â chwmni sy’n cynnig yr offer sydd eu hangen i ddiweddaru deddfwriaeth fel peilot rhad ac am ddim. Y gobaith yw y bydd y Cynulliad, cyn bo hir, yn gallu cyhoeddi ei ddeddfwriaeth yn ei ffurf ddiweddaraf yn rhad ac am ddim ac yn rhwydd i’r cyhoedd.

**Gweithredu: Dylan Hughes**

1. Wrth gyfeirio at argaeledd copïau caled o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yr oedd yr Aelodau’n gryf o’r farn y dylai fod gan bob Aelod o’r Cynulliad yr hawl i gael copïau unigol o ddeddfwriaeth sydd wedi’i chyhoeddi o ofyn amdani er mwyn cyflawni’u cyfrifoldebau’n effeithiol. Gofynnodd y Cadeirydd i’r Clerc ddrafftio llythyr ynghylch y mater hwn i’w anfon at y Llywydd.

**Gweithredu: Y Clerc**

**Eitem 3: Gorchmynion Cynulliad i'w Hystyried gan y Pwyllgor Deddfau**

**LC52 Rheoliadau Tatws sy’n Deillio o’r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2000**

1. Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

1. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5 er iddi nodi rhai sylwadau cyffredinol y dylid tynnu sylw atynt, a chofnofwyd y rhain yn yr Adroddiad. Nododd y Cadeirydd y dylid cynnwys y ‘dyddiad gwneud’ yn yr holl is-ddeddfwriaeth sy’n cael ei gwneud o dan y weithdrefn frys. Gofynnodd i’r Clerc sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn y dyfodol.

1. Atodir adroddiad y Pwyllgor ar y rheoliadau i'r Cynulliad fel LC52(Adroddiad).

### LC53 Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrwyiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2000

1. Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r Pwyllgor.

1. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5 er iddo nodi rhai sylwadau cyffredinol y dylid tynnu sylw atynt, a chofnodwyd y rhain yn yr Adroddiad. Cododd y Cadeirydd bwynt cyffredinol ynghylch eglurder ‘diffiniadau’. Yr oedd yr Aelodau o’r farn bod achos dros ailargraffu rheoliadau er mwyn cynorthwyo’r darllenydd lleyg heb orfod darllen yn ôl drwy Offerynnau Statudol cynharach. Nododdd y Cynghorwyr Cyfreithiol y sylwadau a phwysleisio bod y mater hwn yn un o’r rhesymau dros gyhoeddi’r ddeddfwriaeth yn ei ffurf ddiweddaraf.

1. Atodir adroddiad y Pwyllgor ar y rheoliadau i'r Cynulliad fel LC53(Adroddiad).

### LC54 Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2000

1. Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i'r Pwyllgor. Rhoes wybod bod y Rheoliadau wedi cael eu hatgyfeirio i’r Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar .

1. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5 , er iddi nodi rhai sylwadau cyffredinol y dylid tynnu sylw atynt, a chofnofwyd y rhain yn yr Adroddiad.

1. Atodir adroddiad y Pwyllgor ar y rheoliadau i'r Cynulliad fel LC54(Adroddiad).

**LC55 Gorchymyn Treth Gyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2000**

1. Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

3.11Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig

i'r rheoliadau ar unrhyw sail a bennwyd yn Rheol Sefydlog 11.5.er iddo nodi rhai sylwadau cyffredinol y dylid tynnu sylw atynt, a chofnodwyd y rhain yn yr Adroddiad.

Atodir adroddiad y Pwyllgor ar y rheoliadau i'r Cynulliad fel LC55(Adroddiad).

**LC56 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Terfynau Gwariant Dewisol) (Diwygio) (Cymru) 2000**

1. Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

1. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r rheoliadau ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5, er iddo nodi rhai sylwadau cyffredinol y dylid tynnu sylw atynt, a chofnodwyd y rhain yn yr Adroddiad.

1. Atodir adroddiad y Pwyllgor ar y rheoliadau i'r Cynulliad fel LC56(Diwygiad)(Adroddiad).

**LC57 Gorchymyn Ymddiredolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2000**

1. Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Rhoes wybod nad oedd y Gorchymyn a oedd ger bron y Pwyllgor yr un peth â’r un a osodwyd. Mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch y camgymeriad hwn. Ar gais y Pwyllgor, gofynnodd y Cadeirydd i’r Clerc ddrafftio llythyr ynghylch y mater hwn a’i anfon at y Prif Ysgrifennydd ac anfon copi at y Llywydd.

1. Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i’r

rheoliadau ar unrhyw sail a bennir yn Rheol Sefydlog 11.5, er iddo nodi rhai sylwadau cyffredinol y dylid tynnu sylw atynt, a chofnodwyd y rhain yn yr Adroddiad.

1. Atodir adroddiad y Pwyllgor ar y rheoliadau i'r Cynulliad fel LC57(Adroddiad).

**Gweithredu: Y Clerc**

**Eitem 4: Unrhyw Fusnes Arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**

1. Adroddodd y Cadeirydd ei fod yn deall bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes y diwrnod hwnnw ar y dagfa sydd ym maes is-ddeddfwriaeth. Rhoes wybod i'r Pwyllgor ei fod yn ymwybodol bod nifer sylweddol o ddarnau o ddeddfwriaeth y mae angen ymdrin â hwy ar frys er mwyn iddynt fod mewn grym erbyn 1 Ebrill. Y gobaith oedd y byddai'r adroddiad yn dangos camau a fyddai'n atal tagfa o'r fath rhag digwydd eto.

1. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau bod copïau o Adroddiad Cyntaf y Clerc wedi cael eu hanfon at y Pwyllgor. Crynhoad ydyw o farn y Pwyllgor ar yr ugain darn cyntaf o ddeddfawriaeth y bu iddynt eu hystyried ac effaith eu hargymhellion ar y fersiynau terfynol.

4.3 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Mawrth 2000.

**Papurau Cysylltiedig**

**LC52(Adroddiad)**

**LC53(Adroddiad)**

**LC54(Adroddiad)**

**LC55(Adroddiad)**

**LC56(Adroddiad)**

**LC57(Adroddiad)**